**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF-MD-0282-14

Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Ebrill 2014

Annwyl Darren,

**Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Mawrth sy'n gofyn am eglurhad pellach ar ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion 1, 4, 6 a 7 yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Ceir rhagor o wybodaeth isod.

**Argymhelliad 1**

Ni fwriedir i'r Offeryn Cefnogi Penderfyniadau (DST) newydd gael ei gymhwyso'n ôl-weithredol. Diben y DST yw cefnogi timau amlddisgyblaethol i benderfynu pwy sy'n gymwys am ofal iechyd parhaus. Nid yw, fodd bynnag, yn disodli asesiadau cyflawn a chynhwysfawr neu farn broffesiynol.

Er bod y DST diweddaraf wedi bod yn haws i'w ddefnyddio ac wedi cyflwyno'r dystiolaeth o angen yn gliriach, mae'r profion a gynhaliwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn dangos nad oedd **o reidrwydd neu fel arfer** yn newid y penderfyniadau a wnaed o ran pwy oedd yn gymwys am ofal iechyd parhaus. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag adborth cydweithwyr yn Lloegr, sy'n defnyddio'r fersiwn hon o'r DST ers mis Tachwedd 2012.

Er ei bod hi'n anodd asesu lefel bosibl yr hawliadau ôl-weithredol newydd a wneir gan unigolion sy'n teimlo, o bosibl, eu bod wedi bod o dan anfantais yn y gorffennol, rydym o'r farn y dylid ystyried hawliadau mewn perthynas â'r canllawiau a oedd yn eu lle ar yr adeg honno, a bod y DST newydd yn annhebygol o newid y canlyniad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford @cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

**Argymhelliad 4**

Ar hyn o bryd, mae gohebiaeth safonol oddi wrth y Tîm Prosiect Cenedlaethol (a reolir gan Fwrdd Addysgu Iechyd Powys) yn rhoi gwybod i hawlwyr bod modd blaenoriaethu eu hawliad mewn amgylchiadau arbennig. Rydym, ar hyn o bryd, yn adolygu'r Daflen Wybodaeth a fydd yn cael ei rhoi i hawlwyr er mwyn paratoi ar gyfer cyhoeddi'r dyddiad cau newydd, sef 31 Gorffennaf 2014 (ar gyfer hawliadau a berthyn i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Gorffennaf 2013). Bydd y posibilrwydd hwn o flaenoriaethu hawliad mewn amgylchiadau arbennig yn cael ei gynnwys yn y daflen ddiwygiedig hon. Bydd y daflen yn cael ei rhoi i bob hawlydd.

**Argymhellion 6 a 7**

Rwy'n cadarnhau bod argymhellion y Pwyllgor wedi cael eu derbyn yn llwyr.

Yn unol â chylch gorchwyl y Prosiect Cenedlaethol (Powys), roedd yn ofynnol y byddai pob hawlydd yn cael gwybod am ganlyniad eu hawliad (hy a yw'n gymwys, am ba gyfnod a'r ad-daliad y bydd yn ei dderbyn) erbyn 30 Mehefin 2014.

Yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed hyd yma, disgwylir i bob hawliad gael ei adolygu erbyn diwedd mis Ebrill. Rhagwelir y bydd y cyfnod trafod (o ran cyfnod yr hawliad a'r swm i'w ad-dalu) ar gyfer y gyfran olaf o achosion yn parhau tan ddiwedd mis Mehefin. Yna cânt eu hystyried fel rhai sydd wedi'u cwblhau.

Dim ond pan fo'r hawlydd wedi derbyn ei ad-daliad oddi wrth y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol y caiff achosion eu hystyried fel rhai yr aethpwyd i'r afael â hwy yn llwyr. Mae fy ymateb blaenorol yn cydnabod y gallai'r 'cyfnod setlo' hwn ar gyfer rhai achosion hwyrach a ystyrir gan y Prosiect Cenedlaethol (Powys) bara hyd nes mis Medi 2014. Bydd diweddariadau yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mehefin a mis Medi 2014 i nodi'r cerrig milltir hyn yn ogystal â chyfran yr achosion yr aethpwyd i'r afael â hwy yn llwyr, yn unol â'r diffiniad uchod.

Daeth y cyfnod ymgynghori ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG i ben ar 13 Mawrth. Mae swyddogion, ar hyn o bryd, yn adolygu'r ymatebion a bwriedir cyhoeddi'r Fframwaith diwygiedig ym mis Mehefin 2014.

Dymuniadau gorau,

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services